**Gan ddefnyddio'r proffil disgybl a roddir, nodwch sut y gellid cwrdd ag agweddau penodol o ddatblygiad cyfannol y plentyn mewn lleoliad addysgol. Defnyddiwch gyfeiriadau at ddamcaniaethau perthnasol, ymchwil ac enghreifftiau o arfer rhagorol fel sail i hyn.**

Datblygiad plant yw'r datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol sy'n digwydd mewn plant o enedigaeth i arddegwch. Mae'r broses hon yn ffurfio sylfaen gallu plentyn i ddysgu, rhyngweithio ag eraill, a mordwyo eu hamgylchedd, sy'n ei gwneud yn hanfodol. Mae deall datblygiad plant yn bwysig oherwydd y cysylltedd rhwng y camau datblygol hyn, a'r ffaith bod pob cam yn adeiladu ar y cam blaenorol. Mae deall y camau hyn yn hanfodol i athrawon er mwyn creu amgylchedd lle gall plant ffynnu.

Trwy addasu gwersi a gweithgareddau i sgiliau gwybyddol, emosiynol a chorfforol eu disgyblion, gall athrawon sy'n deall datblygiad plant ddiwallu anghenion eu disgyblion yn well. Mae seicolegwyr datblygiadol fel Jean Piaget a Lev Vygotsky wedi pwysleisio pwysigrwydd rôl yr athro wrth hybu twf, gan nodi bod athrawon yn gallu cynnig heriau, cefnogaeth a chymhelliant priodol pan fyddant yn ymwybodol o gam datblygol plentyn. Mae Piaget yn honni bod meddwl plant yn datblygu mewn camau, ac, trwy ddeall y camau hyn, gall athrawon greu gweithgareddau dysgu sy'n addas ar gyfer eu datblygiad ac yn effeithiol. Yn debyg, mae theori dysgu cymdeithasol Vygotsky yn pwysleisio rôl yr athro fel mentoriaid sy'n defnyddio rhyngweithio a scaffoldio i helpu myfyrwyr i wireddu eu potensial llawn.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd yn unig ar ddatblygiad plentyn, mae dull cyfannol yn ystyried pob rhan o'u twf, gan gynnwys eu datblygiad deallusrwydd, corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r persbectif hwn yn hanfodol mewn addysgu oherwydd ei fod yn sicrhau bod plant yn cael cefnogaeth gynhwysfawr, gan hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, iechyd meddwl, a llwyddiant academaidd. Felly, mae athrawon yn hanfodol wrth helpu plant i ddatblygu'r sgiliau emosiynol a chymdeithasol y byddant eu hangen i lwyddo yn eu bywydau, ynghyd â'u gwybodaeth academaidd. Yn ogystal â dysgu, rôl athro yw cefnogi ac arwain dysgwyr wrth iddynt ddatblygu i fod yn oedolion llawn a chytbwys.

Wrth darllen proffil Ella gallwn gweld nid yw Ella yn hapus i wahanu wrth ei mam yn y bore dengys hyn efallai nid oes sgiliau cymdeithasu gydag hi, mae theori ymlyniad John Bowlby yn dangos bod perthynas rhwng mam a'i phlant yn cael effaith enfawr pan iddynt yn symud ymlaen i ysgol. Mae'r theori hyn wedi cael effaith fawr ar ymdrechion i ddarparu fframwaith (Goldberg, Muir and Kerr, 2013, p.30).Gwelwn yn yr ysgol pontio bod athrawon dosbarth derbyn sef yr un dosbarth a Ella yn gwneud yn siŵr bod yn rhoi cyfarchiad i'r plant i'w helpu gyda hyn. Gall gweld bod Ella weithiau yn ddangos hoffter tuag at blant eraill ac oedolion sydd yn 'cymryd ofal' amdani. Theori gan Lev Vygotsky yn dangos bod plentyn oedran 4 yn ffafrio plant neu oedolyn sydd yn helpu arwain, trwy rhoi cymorth neu cefnogaeth emosiynol. Efallai byddai'n well gan y plentyn y rhai sy'n darparu ymdeimlad o sefydlogrwydd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. "*By age 4, children should have an active social life filled with friends*." (American Academy of Pediatrics, 2021). Mae theori Vygotsky hefyd yn cefnogi y ffaith bod Ella yn chwarae ar ei phen ei hun ac nid yw'n dangos ymwybyddiaeth o gyfoedion. Yn yr ysgol pontio, rode yr athrawon prob too yn cael dau plentyn neu fwy I gyd-weithio i cwblhau tasg. Roedd rhyddid gan y plant i

gwneud tasg o'u dewis nhw, ond oedd yr athrawon yn cefnogi plant i cymysgu gyda'i gilydd er mwyn datblygu hyder a sgiliau cymdeithasu y plant. Gall hyn arwain at datblygiad hyder a chyfathrebu Ella gyda'i cyfoedion. Ystyriai Erikson "*Personality develops in a predetermined order through 8 stages of psychosocial development, during each stage the person experiences a psychosocial crisis that could positively or negatively affect personality development*." (Mcleod, 2024). Gallwn gweld wrth camau datblygiadol Erikson bod Ella yn ffitio i mewn I cam oedran 1-3 sef ymreolaeth yn erbyn cywilydd/amheuaeth ac hefyd menter yn erbyn euogrwydd sef cam oedran 3-6. (Davidson Films, Inc, 2010). Gall theori hyn cefnogi y ffaith bod nid yw Ella yn dangos gofal a parch tuag at eraill. Yn ôl Erikson mae plant 4 oed yn mordwyo trwy'r cam menter yn erbyn euogrwydd ble maent yn dysgu i cymryd menter, I creu dewisiadau ei hyn ac i haeru eu hunan. Os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu rheoli'n ormodol efallai nid byddant yn dangos parch fel modd o datgan eu hannibyniaeth. Ar y cam hyn, gall plant brofi ffiniau, heb ddeall yn llawn y cysyniad o barch oherwydd eu bod yn dal i ddarganfod eu hymreolaeth. Gwelwn yn yr ysgol pontio rhai dysgwyr sydd yn cael trafferth yn y camau hyn, i'w help y gyda hyn mae'r athrawon a'r ysgol yn defnyddio siartiau ymddygiad sydd yn annog y dysgwyr i bod yn ymwybodol o'u gweithredoedd. Os yw dysgwyr yn ymddwyn yn dda maent yn cael gwobr fach fel sticeri i helpu annog y dysgwyr. Gall gwobrwyo helpu gwella ymddygiad. Profir hyn gan Skinner. Wnaeth Skinner profiad lle rhoddid llygoden fawr mewn bwlch a oedd yn rhyddhau bwyd yn y bocs. O ganlyniad i hyn dysgodd y llygoden fod ei ymddygiad sef tynnu'r lifer wedi arwain at gwobr sef y bwyd, y proses hyn yn cael ei galw yn atgyfnerthu cadarnhaol. "*Reinforcement makes the behaviour more likely to occur, while punishment makes it less likely to occur.*" (Tutor2U, 2018). Awgryma'r datcaniaeth hyn os ydych yn cael ei gwobrwyo am wneud peth da mae'r ymddygiad hyn yn fwy tebygol i barhau. O'r datganiad Skinner awgryma bod ymddygiad plant yn cael ei siâpo gan wobrau, felly ddylai athrawon rhoi cydnabyddiaeth ar y waith dda gan Ella, gall hyn codi hyder Ella. Gwelir wrth proffil Ella ei bod hi'n ffeindio yn anodd I rannu adnoddau'r dosbarth yn ystod gweithgareddau chwarae gydag eraill. Y cam cynweithredol, sy'n cyfateb yn fras i oedrannau 2 i 7, yw lle mae plant yr oedran hyn yn cael fel arfer yn theori datblygiad gwybyddol Piaget. Mae plant yn egosentrig trwy gydol y cyfnod hyn, sy'n golygu eu bod hi'n anodd gweld pethau o safbwyntiau pobl eraill. Gall plentyn pedair oed ei chael yn anodd deall y rhesymau dros rannu adnoddau oherwydd y diffyg gwybyddol hyn. Ystyried efallai nad ydynt yn deall yn llwyr fudd cymdeithasol neu degwch rannu gan ei bod yn ymgolli yn eu hanghenion a'u dymuniadau eu hunan. Yn ôl Piaget, mae plant yn y cyfnod hyn dal I ddysgu am gadwraeth, sy'n dylanwadu ar sut maen nhw'n gweld perchnogaeth a rannu. Ond nid yw pawb yn cytuno gyda syniad Piaget oherwydd wnaeth ef ei datganiad ar ei blant ei hun, defnyddiodd rhai pobl gwahanol hefyd ond sampl fach ac roedd pob un yn dod o deuluoedd a oedd wedi'u haddysgu'n dda ac o statws economaidd-gymdeithasol uchel. Oherwydd hyn mae'n anodd cyffredinoli ei ganfyddiadau i boblogaeth fwy. (Cherry, 2023). Fodd bynnag dengys damcaniaeth gymdeithasol-ddiwylliannol Lev Vygotsky yn taflu mwy o oleuni ar betruster plentyn pedair oed i rannu. "*Vygotsky has changed the way educators think about children's interactions with others. His work shows that social and cognitive development work together and build on each other*." (Mooney, 2013, p.101) Yn ol Vygotsky Mae plant yn caffael ymddygiadau pwysig fel rannu trwy ymgysylltu dan oruchwyliaeth yn eu lleoliad diwylliannol, ac mae twf gwybyddol yn digwydd trwy gyswllt cymdeithasol. Nid yw'r syniad o rannu yn cael ei ddeall ar unwaith gan blant yr oedran hwn gan eu bod yn dal i fewnoli safonau cymdeithasol. Er mwyn deall yn well arwyddocâd rannu a'i worth cymdeithasol, mae a gen sgaffaldau oedolion

arnynt ar ffurf modelu, atgyfnerthu, a chyfarwyddyd penodol. Gan nid ydynt eto wedi datblygu'r gallu i rheoli eu emosiynau a'u symbyliadau'n llwyr, sgil sy'n hanfodol ar gyfer deall a rhoi normau cymdeithasol fel rannu a chymryd tro ar waith. (Gowrie NSW, 2024). Wrth gweld yn yr ysgol pontio mae'r athrawon yn defnyddio technegau fel chwarae yn grwp, rhai o pethau gwelais yn gynnwys amser cylch a gemau fel taflu pêl rownd y cylch I ateb y cwestiwn mae'r athrawes yn gofyn. Hefyd gwelais yn y dosbarth derbyn roedd un dysgwyr nid eisiau ymateb yn y gêm, gofynnodd yr athrawes cwestiwn uniongyrchol i'r dysgwyr hyn, teimlodd mwy cyfforddus i ateb o ganlyniad i hyn. Ond nid oedd y dysgwyr yn hoff iawn o rannu'r pêl rownd eto felly rhoddodd yr athrawes y cyfle i'r dysgwyr hyn i gofyn y cwestiwn i'r dysgwyr eraill yn y dosbarth, creodd hyn y cyfle i'r dysgwyr codi hunan hyder ac dealltwriaeth o pwysigrwydd rannu. Gall technegau fel hyn helpu Ella gydag dealltwriaeth hi ac as ydynt yn gwneud gweithgareddau fel hyn pob dydd ac yn ail adrodd bydd hyn yn dod yn naturiol i Ella.

Wrth parhâi i ddarllen proffil disgybl Ella, gallwn gweld bod Ella yn cael trafferth gwybyddol. Nid yw Ella yn galli ymateb yn iawn ac yn llawn pob tro nad ydynt yn glir ac mwyafrif o'r amser mae'n defnyddio ymatebion un gair. "*Children's cognitive processes develop overtime, develop in their response to their environment and are updated with exposure to new information.*" (Nortje, 2021). Gwelir o damcaniaeth datblygiad gwybyddol mae Jean Piaget yn taflu goleuni ar sut mae dysgwyr yn defnyddio iaith. Mae plant yn y cyfnod cyn-weithredol yn yr oedran hyn, pan fyddant yn dechrau defnyddio meddwl symbolaidd ond yn dal i gaffael y sgiliau gwybyddol sydd eu hangen ar gyfer defnydd iaith mwy soffistigedig sef defnyddio brawddegau yn hytrach na ymatebion un gair. Yn ôl Piaget, ddywedodd fod cysylltiad agos rhwng datblygiad iaith a datblygiad gwybyddol, mae dysgwyr pedair oed yn dechrau cynrychioli cysyniadau gan defnyddio geiriau, er y gallai eu lleferydd gael ei gyfyngu o hyd i eiriau neu ymadroddion syml gan eu bod yn dal datblygiad eu gallu i fynegi syniadau mwy cymhleth yn llwyr. (Sprouts, 2018) Yn yr ysgol pontio gwelir athrawon yn gwneud ymarferion Tric a Llic pob bore yn amser cylch gyda'i dysgwyr, trwy gwneud gweithgaredd fel hyn bydd yr ail adrodd yn helpu datblygu sgiliau iaith dysgwyr. Bydd Ella yn elwa o hyn os bydd yn cael ei gwneud gydag hi, bydd yn datblygu sgiliau iaith a hunan hyder. Mae'n glir i'w weld bod Ella heb wedi'i datblygu'n wybyddol am plentyn pedair oed nid yw Ella's gallu dweud stori fer yn llawn, ond Mae hi'n gallu cofio rhannau o stori. Ystyriai Ebbinghaus theori amdano sut mae'r meddwl yn cofio. Gwnaeth arbrawf ar ei hunan ar draws 7 mis er mwyn darganfod fel mae'r meddwl yn cofio, enw'r theori yw 'Ebbinghaus Forgetting Curve' o ganlyniad i hyn darganfuodd y mwy mae rhywbeth yn cael ei ail adrodd y fwy tebygol o'r cof yn cadw'r gwybodaeth yn eich meddwl. (Murre and Dros, 2015). Hefyd gwnaeth seicolegwyr John B Watson meddwl pe bai'n cael unrhyw blentyn iach y gallai eu siapio i mewn i beth bynnag oedd ei eisiau gyda'r defnydd o gyflyru. Yn ei arbrawf 'Little Albert' defnyddiodd cyflyru clasurol i rhaglennu'r babi sef 'Little Albert 'I ofni y llygoden fawr labordy. Yn ystod yr arbrawf gosododd Watson y Babi mewn ystafell lee roedd y llygoden fach yn crwydro o gwmpas. Yn gyntaf, ni ddangosodd unrhyw ofn tuag at y llygoden fawr. Yna, tarodd far dur gyda morthwyl, pob tro roed Albert yn ymestun allan i gyffwrdd â'r llygoden fawr, gan ddychryn Albert ac yn arwain iddo llefen. Yn y diwedd ceisiodd Albert ddianc o'r llygoden fawr, gan ddangos ei fod wedi'i gyflyru i ofni'r llygoden fawr. (Koblin, 2021). Dengys hyn bod ail adrodd yn effeithio eich cof llawer. Os ydyn yn edrych ar gwaith Watson mae'n amlwg gweld bod hyn wedi cael effaith wael ar y plentyn yn yr arbrawf ond mae yn dangos bod ail adrodd yn effeithiol. Trwy'r ysgol pontio dwi wedi gweld llawer o waith ail adrodd ac ymarfer yn cael ei

defnyddio ac yn codi hyder y dysgwyr. Maent yn gwneud hyn trwy gwneud pethau cofiadwy ac trwy defnyddio adnoddau I'w help gyda hyn. Rhywbeth defnyddiol dwi wedi dod ar draws yn yr ysgol pontio yw yr addysgwr Pie Corbett, maent yn defnyddio gweithredoedd pan yn ymarfer stori, Mae hyn yn gweithio'n dda i dysgwyr i cofio y prif bwyntiau yn y stori ac yn gwneud pethau yn hwylus iddynt nid yn ddiflas. Bydd Ella yn elwa os bydd yr ysgol ei hun a pobl adref yn helpu ac yn y arfer popeth gydag hi trwy gemau corfforol a llafar oherwydd mae'r peth hyn yn cadw yn eich cof.

I grynhoi, mae plentyn pedair oed sy'n cael anawsterau gyda datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol yn negodi cyfnod datblygiadol heriol lle mae anawsterau gyda hunanreolaeth, cyfathrebu ac empathi yn nodweddiadol. Yn ôl damcaniaethau gan Piaget, Vygotsky, ac Erikson, mae'r ffrâm amser hon yn hanfodol ar gyfer twf sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth emosiynol, a galluoedd gwybyddol. Er y gall Ella arddangos symptomau anhawster, fel petruster i ryngweithio ag eraill neu anawsterau mynegi eu hunain, mae'r anawsterau hyn yn rhan nodweddiadol o dyfu i fyny. Bydd Ella yn datblygu'n gynyddol y sgiliau angenrheidiol i reoli eu hemosiynau, deall ciwiau cymdeithasol, a chryfhau eu galluoedd gwybyddol gyda'r gefnogaeth gywir, megis cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol adeiladol a sgaffaldau gan ofalwyr. Yn y pen draw bydd Ella yn symud tuag at fwy o annibyniaeth hunan hyder.

## Cyfeiriadau

American Academy of Pediatrics (2021). *Social Development in Preschoolers*. [online] HealthyChildren.org. Available at: https://www.healthychildren.org/English/ages-stages/preschool/Pages/Social-Development-in-Preschoolers.aspx By age four, your child should have an active social life filled with friends.

Cherry, K. (2023). *Support and Criticism of Piaget's Stage Theory*. [online] Verywell Mind. Available at: https://www.verywellmind.com/support-and-criticism-of-piagets-stage-theory-2795460.

Davidson Films, Inc (2010). *Erik Erikson's Theory of Psychosocial Development in Infancy and Early Childhood*. *YouTube*. Available at: https://www.youtube.com/watch?v=A0sxaU34MPE [Accessed 11 Oct. 2024].

Goldberg, S., Muir, R. and Kerr, J. (2013). *Attachment Theory Social, Developmental, and Clinical Perspectives*. Florence Taylor And Francis, p.30.

Gowrie NSW (2024). *Lev Vygotsky's theory of child development*. [online] www.gowriensw.com.au. Available at: https://www.gowriensw.com.au/thought-leadership/vygotsky-theory.

Koblin, J. (2021). *Watson's Theory of Behaviorism – Sprouts — Free Videos for Schools and Learning*. [online] sprouts. Available at: https://sproutsschools.com/watsons-theory-of-behaviourism/.

Mcleod, S. (2024). *Erik Erikson's Stages of Psychosocial Development*. [online] Simply Psychology. Available at: https://www.simplypsychology.org/Erik-Erikson.html Personality develops in a predetermined order through 8 stages of psychosocial development, during each stage the person experiences a psychosocial crisis that could positively or negatively affect personality development Personality develops in a predetermined order through 8 stages of psychosocial development, during each stage the person experiences a psychosocial crisis that could positively or negatively affect personality development.

Mooney, C.G. (2013). *Theories of Childhood : An Introduction to Dewey, Montessori, Erikson, Piaget, and Vygotsky*. 2nd ed. St. Paul, MN: Redleaf Press, p.101.

Murre, J.M.J. and Dros, J. (2015). Replication and Analysis of Ebbinghaus' Forgetting Curve. *PLOS ONE*, [online] 10(7). doi:https://doi.org/10.1371/journal.pone.0120644.

Nortje, A. (2021). *Piaget's 4 Cognitive Development Stages: Exploring the Theory*. [online] PositivePsychology.com. Available at: https://positivepsychology.com/piaget-stages-theory/.

Sprouts (2018). *Piaget's Theory of Cognitive Development*. *YouTube*. Available at: https://www.youtube.com/watch?v=IhcgYgx7aAA.

Tutor2U (2018). *Operant Conditioning*. [online] tutor2u. Available at: https://www.tutor2u.net/psychology/reference/operant-conditioning reinforcement makes the behaviour more likely to occur, while punishment makes it less likely to occur.